



Ein cyf/Our ref: MA/EM/4242/21

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

20 Ionawr 2022

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd ynglŷn â safbwyntiau academyddion arbenigol ar y materion allweddol sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r adferiad wedi COVID-19, a phwysigrwydd ymchwil glinigol. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb ichi.

Mewn perthynas â chanfyddiadau'r pwyllgor a'r trafodaethau ag academyddion ar bwysigrwydd ymchwil glinigol yng Nghymru, a'r pwysigrwydd bod gofal iechyd yn symud i fodel ar sail tystiolaeth neu fodel sy'n cynhyrchu tystiolaeth, gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n weithredol ag ymchwilwyr ar draws nifer o leoliadau clinigol ac academaidd ledled Cymru. Mae hyn yn digwydd yn enwedig drwy gefnogaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Yn ystod 2021, ymrwymais i weledigaeth y DU gyfan, *'Achub a Gwella Bywydau: dyfodol cyflawni ymchwil glinigol'* er mwyn creu amgylchedd ymchwil glinigol sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n hybu arloesi ac sydd wedi'i alluogi yn ddigidol. Mae'r weledigaeth hon yn grymuso pawb o fewn y GIG i gymryd rhan mewn cyflawni ymchwil, a sicrhau bod cleifion yng Nghymru a'r DU yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn ymchwil sydd yn berthnasol iddynt hwy.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cydweithio â holl sefydliadau'r GIG i sicrhau bod ymchwil wedi'i hymgorffori yn y GIG er mwyn creu diwylliant sy'n gadarnhaol tuag at ymchwil. Maent yn ceisio sicrhau bod pob aelod o staff y sector iechyd a gofal wedi'u grymuso i gefnogi a chymryd rhan mewn ymchwil glinigol yn rhan o'u swydd. Rhaid sicrhau gwaith pellach er mwyn creu'r newid sylweddol sydd ei angen, a bydd rhaglen waith yn parhau drwy gydol 2022.

Yn ogystal, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu nifer o ganolfannau rhagoriaeth mewn ymchwil yng Nghymru. Gan ganolbwyntio'n gadarn ar rannu gwybodaeth, mae'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Canolfannau yn meithrin y gallu i gynnal ymchwil gan sicrhau effaith tu hwnt i'r academydd drwy drosglwyddo eu canfyddiadau ymchwil i ymarfer, polisi ac addysg. Ceir nifer o enghreifftiau ac rwyf felly yn rhannu ychydig ohonynt er mwyn rhoi blas ichi o'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn ddiweddar.

Er enghraifft, yn rhan o ymdrechion yr ymateb i'r pandemig COVID-19, llwyddodd ymchwilwyr yng Nghanolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (Canolfan PRIME Cymru) i ddefnyddio gwybodaeth yr oeddent wedi'i chanfod o dreialon. Un o'r rhain oedd yr hap-dreial wedi'i reoli o'r enw CARIAD a ariannwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. Defnyddiwyd yr wybodaeth er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu argymhellion Bwrdd Diwedd Oes Llywodraeth Cymru ynghylch addysgu gofalwyr di-dâl i roi meddyginiaeth isgroenol yn ôl yr angen i ymdrin â symptomau cychwynol cyffredin mewn pobl sy'n dymuno bod gartref pan fyddant yn marw.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Canolfan Economeg Iechyd a Gofal Cymru astudiaeth a oedd yn sefydlu dymuniadau a phryderon, defnydd o wasanaethau gofal iechyd, a chost opsiynau dialysis ar gyfer cleifion yng Nghymru. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r astudiaeth, gwnaethpwyd newidiadau i'r rhaglenni addysg ym myrddau iechyd lleol yng Nghymru er mwyn grymuso cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth dialysis yn gynt, yn ogystal â sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau.

Yr Athro Adrian Edwards, Cyfarwyddwr Canolfan PRIME yw arweinydd y Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru yn ogystal. Sefydlwyd y Ganolfan ym mis Mawrth eleni er mwyn sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth ymchwil yn gyfredol ac yn berthnasol i Gymru. Mae hyn yn rhan allweddol o waith y ganolfan er mwyn rhoi dadansoddiadau o dystiolaeth wyddonol hollbwysig sy'n gymorth i fynd i'r afael â rhai o'r heriau iechyd a gofal cymdeithasol newydd a ddaeth yn sgil y pandemig.

Mae canfyddiadau adolygiadau'r Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 yn cael eu rhannu'n uniongyrchol â Phwyllgor Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru, ac maent yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â COVID-19, a'r adferiad wedi COVID-19. Mae rhai o ganfyddiadau allweddol y ganolfan yn cynnwys gorchuddion wyneb a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â'r rhain i atal trosglwyddiad COVID-19, ac effaith y pandemig ar iechyd meddwl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r canfyddiadau hefyd yn cynnwys heintiau COVID-19 a brechiadau ar gyfer merched beichiog, a throsglwyddiad COVID-19 mewn manau caeedig, manau lled-gaeedig ac yn yr awyr agored.

Fel a gyfeiriwyd ato yn llythyr y pwyllgor, roedd arolwg Lles COVID-19 Cymru yn un o nifer o ffynonellau data a ddefnyddiwyd i ddeall effaith y pandemig ar iechyd meddwl yng Nghymru.

Trafodwyd canlyniadau ton gyntaf yr arolwg gan y Grŵp Achosion Iechyd Meddwl sy'n cynnwys swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a gwasanaethau iechyd meddwl y GIG. Cafodd canlyniadau ail don yr arolwg eu cynnwys mewn crynodeb ymchwil a rannwyd ymysg cydweithwyr polisi ac aelodau Bwrdd Gweithredu a Goruchwylio Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Roedd hyn yn fodd o sicrhau bod yr aelodau yn parhau i gael eu diweddarau ynghylch y dystiolaeth a'r data diweddaraf ar y mater.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services